

University of  
South Wales  
Prifysgol  
De Cymru

# **Prifysgol De Cymru**

## **Rheoliadau Cyfrifiadura**

### **Technoleg Gwybodaeth**

Ebrill 2015

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	2
2. Crynodeb .....	3
3. Rheoliadau Craidd .....	4
4. Canllawiau .....	8

## Hanes Diwygio

Diwygiad	Dyddiad Cyhoeddi	Disgrifiad o'r Diwygiad	Awdur	Cymeradwywyd gan Systemau Gwybodaeth	Cymeradwyaeth Ffurfiol
1.0	Mai 2014	Ailddrafftio gan ddefnyddio rheoliadau model fframwaith UCISA ar gyfer defnyddio cyfleusterau a systemau technoleg gwybodaeth sefydliadol.	JR	Do	DISAG 15/05/14
2.0	Ebrill 2015	Cynnwys y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 gan gyfeirio'n benodol at y 'Canllaw Dyletswydd ar <i>Atal</i> ar gyfer Lloegr a Chymru'	JR	Do	Is-Grŵp TGCh VCEB 14/05/15

# 1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol De Cymru yn gymuned amlddiwylliannol ac amlhiliol o staff a myfyrwyr sydd ag amrywiaeth eang o farn, safbwyntiau a ffyrdd o fyw. Yn hyn o beth, rydym yn awyddus i sicrhau bod holl aelodau ein cymuned yn cael eu parchu.

Lluniwyd y Rheoliadau Cyfrifiadura Technoleg Gwybodaeth er mwyn sicrhau bod defnyddwyr cyfleusterau cyfrifiadura Prifysgol De Cymru yn ymwybodol o'r ymddygiad sy'n ddisgwyliedig ganddynt.

Nod y Brifysgol yw annog defnydd o'i chyfleusterau cyfrifiadura yn hytrach na chyfyngu arno. Nid bwriad y Rheoliadau yw atal defnydd o'r cyfleusterau ond yn hytrach, i'r gwrthwyneb, sicrhau bod amgylchedd yn cael ei greu lle mae defnyddwyr yn rhydd i weithio gyda chyn lleied o effaith â phosibl ar ddefnyddwyr eraill.

Ni all y Rheoliadau ragweld pob sefyllfa sy'n debygol o godi, felly darperir canllawiau i helpu defnyddwyr i ddeall o dan ba amgylchiadau y dylid gweithredu'r Rheoliadau.

Gellir defnyddio'r Rheoliadau i sicrhau safonau sylfaenol, ond eu prif bwrpas yw hyrwyddo arferion da wrth ddefnyddio cyfleusterau cyfrifiadura'r Brifysgol.

**Mae'n bosibl y bydd defnydd unigolion yn cael ei fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau hyn, a byddwn yn ymchwilio'n drylwyr i unrhyw honiad o gamddefnydd, gan gynnwys archwilio ffeiliau a negeseuon e-bost yn storfa ffeiliau defnyddwyr.**

Wrth lunio'r Rheoliadau, mae Prifysgol De Cymru wedi mabwysiadu 'model fframwaith UCISA ar gyfer defnyddio cyfleusterau a systemau technoleg gwybodaeth sefydliadol' gan addasu'r canllawiau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

O dan Awdurdod Is-Grŵp TGCh Bwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor (VCEB) ([Is-Grŵp TGCh VCEB](#)), Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb am weithredu'r rheoliadau.

## Diolchiadau

- Grŵp llywio rheoliadau model UCISA
- Richard Murphy, Aelod Cyfetholedig o Bwyllgor Gwaith UCISA (arweinydd y prosiect)
- Heidi Fraser-Krauss, Is-Gadeirydd UCISA
- Anna Mathews, Pennaeth Polisi a Phrosiectau

## 2. Crynodeb

Dyma grynodeb byr iawn o brif bwyntiau'r Rheoliadau Technoleg Gwybodaeth.

- **Llywodraethu**

Peidiwch â thorri'r gyfraith, cadwch at reoliadau a pholisïau Prifysgol De Cymru, a thalwch sylw i reoliadau unrhyw drydydd parti os byddwch yn defnyddio'u cyfleusterau.

- **Hunaniaeth**

Peidiwch â gadael i unrhyw un arall ddefnyddio eich manylion adnabod technoleg gwybodaeth, peidiwch â chuddio eich hunaniaeth ar-lein a pheidiwch â cheisio dwyn na defnyddio hunaniaeth rhywun arall.

- **Seilwaith**

Peidiwch â rhoi cyfleusterau technoleg gwybodaeth Prifysgol De Cymru mewn perygl drwy gyflwyno maleiswedd, ymyrryd â chaledwedd neu lwytho meddalwedd heb awdurdod.

- **Gwybodaeth**

Diogelwch eich data personol, parchwch wybodaeth pobl eraill a pheidiwch â chamdefnyddio deunydd sydd o dan hawlfraint. Cofiwch nad yw dyfeisiau symudol bob amser yn cynnig ffordd ddiogel o drin gwybodaeth.

- **Ymddygiad**

Peidiwch â gwastraffu adnoddau technoleg gwybodaeth, amharu ar ddefnydd cyfreithlon defnyddwyr eraill nac ymddwyn mewn modd na fyddai'n briodol yn y byd go iawn.

### 3. Rheoliadau Craidd

Nod y rheoliadau hyn yw helpu i sicrhau bod modd defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth Prifysgol De Cymru yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn deg.

Mae'r materion sy'n cael eu trafod yn y rheoliadau hyn yn gymhleth, ac fe'ch cyngorir yn gryf i ddarllen y canllawiau sydd ar gael sy'n rhoi gwybodaeth fanylach ddefnyddiol i chi.

#### 1. Cwmpas

Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i unrhyw un sy'n defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth (caledwedd, meddalwedd, data, mynediad at rwydwaith, gwasanaethau trydydd parti, gwasanaethau ar-lein neu *fanylion adnabod technoleg gwybodaeth*) a gaiff eu darparu neu eu trefnu gan Brifysgol De Cymru.

#### 2. Llywodraethu

Wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth, rydych chi'n ddarostyngedig i'r un gyfraith a rheoliadau ag y byddwch yn y byd go iawn.

Disgwylir ichi ymddwyn yn gyfreithlon. Nid yw anwybodaeth am y gyfraith yn amddiffyniad digonol am ymddygiad anghyfreithlon.

Pan fyddwch yn defnyddio gwasanaethau mewn awdurdodaethau eraill, mae'n rhaid ichi gadw at bob deddf leol berthnasol, yn ogystal â ddeddfau sy'n berthnasol i leoliad y gwasanaeth.

Rydych yn ddarostyngedig i reoliadau cyffredinol Prifysgol De Cymru pan fyddwch yn defnyddio'r cyfleusterau technoleg gwybodaeth.

Rhaid ichi gadw at reoliadau perthnasol pan fyddwch yn defnyddio gwasanaethau sefydliadau eraill er enghraifft Janet, Eduserv a Jisc Collections. Pan fyddwch yn defnyddio gwasanaethau drwy eduroam, rydych yn ddarostyngedig i reoliadau Prifysgol De Cymru a rheoliadau'r sefydliad lle byddwch yn defnyddio'r gwasanaethau.

Bydd rhai trwyddedau meddalwedd sydd gan Brifysgol De Cymru yn gosod rhwymedigaethau ar y defnyddiwr – dylid cadw at y rhain. Os byddwch yn defnyddio meddalwedd neu adnodd sydd ynghlwm â chytundeb CHEST, byddwch chi'n derbyn Cydnabyddiaeth Defnyddiwr Eduserv o Hawliau Trydydd Parti. (Gweler y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau am ragor o fanylion)

Bernir bod torri unrhyw gyfraith neu reoliad trydydd parti perthnasol yn torri'r rheoliadau technoleg gwybodaeth hyn.

Bydd rheoliadau ychwanegol yn cael eu hychwanegu i gefnogi'r fframwaith hwn a gellir eu gweld drwy fynd I <http://its.southwales.ac.uk/it-regulations/>

### 3. Awdurdod

Cyhoeddir y rheoliadau hyn o dan awdurdod Is-Grŵp TGCh Bwrdd Gweithredol Is-Ganghellor (VCEB) ([Is-Grŵp TGCh VCEB](#)) Prifysgol De Cymru sydd hefyd yn gyfrifol am eu dehongli a'u gorfodi, ac sydd â'r pŵer i ddirprwyo awdurdod o'r fath i bobl eraill.

Rhaid ichi beidio â defnyddio cyfleusterau TG Prifysgol De Cymru heb ganiatâd Is-Grŵp TGCh VCEB / Deon y Gyfadrn / Cyfarwyddwr yr Adran Gorfforaethol.

Rhaid ichi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd ysgrifenedig neu lafar rhesymol a gyhoeddir i gefnogi'r rheoliadau hyn gan bobl sydd ag awdurdod dirprwyedig. Os teimlwch fod unrhyw gyfarwyddyd o'r fath yn afresymol neu'n peidio â chefnogi'r rheoliadau hyn, cewch gyflwyno apêl i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth.

### 4. Defnydd a Fwriedir

Darperir cyfleusterau technoleg gwybodaeth i'w defnyddio i hyrwyddo cenhadaeth Prifysgol De Cymru, er enghraifft i gefnogi cwrs astudio, gwaith ymchwil neu mewn cysylltiad â'ch cyflogaeth gan y sefydliad.

Caniateir defnyddio'r cyfleusterau hyn at ddefnydd personol (ar yr amod nad yw hynny'n torri'r rheoliadau nac yn amharu ar ddefnydd dilys pobl eraill), ond braint yw hyn a gellir ei thynnu yn ôl ar unrhyw adeg.

Rhaid cael cymeradwyaeth benodol gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth os bwriedir defnyddio'r cyfleusterau i elwa'n bersonol neu at ddefnydd masnachol nad yw'n ymwneud â'r sefydliad.

Caniateir defnyddio rhai trwyddedau penodol at ddefnydd academiaidd yn unig, a lle bo'n berthnasol, at ddefnydd sydd o fewn y cod ymddygiad a gyhoeddwyd gan y Tîm Meddalwedd Addysg Uwch Cyfunol (CHEST). <http://www.eduserv.ac.uk/services/Chest-Agreements>

### 5. Hunaniaeth

Rhaid ichi gymryd pob rhagofal rhesymol i ddiogelu unrhyw *fanylion adnabod technoleg gwybodaeth* (er enghraifft enw defnyddiwr neu gyfrinair, cyfeiriad e-bost, cerdyn clyfar neu galedwedd hunaniaeth arall) a roddir i chi. Rhaid ichi beidio â gadael i unrhyw un arall ddefnyddio eich manylion adnabod technoleg gwybodaeth. Nid oes gan neb yr awdurdod i ofyn i chi am eich cyfrinair, a rhaid i chi beidio â'i ddatgelu i neb.

Rhaid ichi beidio â cheisio defnyddio na chael gafael ar fanylion adnabod neb arall.

Rhaid ichi beidio â dynwared rhywun arall na chuddio eich hunaniaeth pan fyddwch yn defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth.

## 6. Seilwaith

Rhaid ichi beidio â gwneud dim i beryglu'r seilwaith technoleg gwybodaeth drwy, er enghraifft, wneud unrhyw un o'r canlynol heb gymeradwyaeth:

- Difrodi, ailffurfweddu neu symud offer;
- Llwytho meddalwedd ar offer Prifysgol De Cymru ac eithrio pan fyddwch wedi cael cymeradwyaeth i wneud hynny;
- Ailffurfweddu neu gysylltu offer â'r rhwydwaith heblaw drwy ddefnyddio dulliau sydd wedi'u cymeradwyo;
- Gosod gweinyddion neu wasanaethau ar y rhwydwaith;
- Cyflwyno maleiswedd yn fwriadol neu'n anystyriol;
- Ceisio trechu neu amharu ar fesurau diogelwch technoleg gwybodaeth.

## 7. Gwybodaeth

Os ydych yn trin gwybodaeth bersonol, gyfrinachol neu sensitif, rhaid ichi gymryd pob cam rhesymol i'w diogelu a rhaid ichi dalu sylw i Bolisi Diogelu Data Prifysgol De Cymru <http://uso.southwales.ac.uk/ig/dp> a pholisïau a chanllawiau Diogelwch Gwybodaeth, yn enwedig o ran cyfryngau mae modd eu tynnu a dyfeisiau symudol a phreifat.

Rhaid ichi beidio â thorri hawlfraint, na thorri telerau trwyddedau meddalwedd neu ddeunydd arall. Rhaid ichi beidio â cheisio cael mynediad at wybodaeth, na dileu, addasu na datgelu gwybodaeth sy'n eiddo i rywun arall heb eu caniatâd, neu heb gymeradwyaeth benodol gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth.

Rhaid ichi beidio â chreu, llwytho, storio na throsglwyddo deunydd anghyfreithlon na deunydd anwedus, tramgwyddus, ymosodol neu wahaniaethol.

Rhaid ichi gadw at bolisi Cyfryngau Cymdeithasol <http://its.southwales.ac.uk/documents/download/6> Prifysgol De Cymru pan fyddwch yn defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth i gyhoeddi gwybodaeth.

## 8. Ymddygiad

Mae safonau ymddygiad y byd go iawn yn berthnasol ar-lein ac ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook, Blogger a Twitter.

Rhaid ichi beidio ag achosi tramgwydd, pryder na phoendod diangen i eraill.

Dylech hefyd gadw at ganllawiau Prifysgol De Cymru am gyfryngau cymdeithasol.

Rhaid ichi beidio ag anfon sbam (e-bost torfol digymell).

Rhaid ichi beidio â defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth gormodol yn fwriadol neu'n anystyriol, er enghraifft pŵer prosesu, lled band neu adnoddau traul.

Rhaid ichi beidio â defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth mewn modd sy'n amharu ar ddefnydd dilys pobl eraill ohonynt.

## 9. Monitro

Mae Prifysgol De Cymru yn monitro ac yn cofnodi defnydd o'i chyfleusterau technoleg gwybodaeth at ddefnydd:

- Cynllunio a gweithredu'r cyfleusterau technoleg gwybodaeth yn effeithiol ac effeithlon;
- Canfod ac atal unrhyw achos o dorri'r rheoliadau hyn;
- Ymchwilio i gamymddygiad honedig;

Bydd Prifysgol De Cymru yn cydymffurfio ag ymholiadau cyfreithlon am wybodaeth gan asiantaethau'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

Rhaid ichi beidio â cheisio monitro defnydd o gyfleusterau technoleg gwybodaeth heb awdurdod penodol gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth.

## 10. Torri'r rheolau

Gallai torri'r rheoliadau hyn arwain at sancsiynau o dan brosesau disgyblu'r sefydliad. Gall cosbau gynnwys colli hawl i wasanaethau a/neu ddirwyon. Bydd unrhyw ddeunydd sy'n torri'r rheolau yn cael ei dynnu i lawr.

Mae'n bosibl y caiff gwybodaeth am unrhyw drosedd ei phasio ymlaen i asiantaethau gorfodi'r gyfraith perthnasol, ac unrhyw sefydliadau eraill y byddwch wedi torri eu rheoliadau.

Mae Prifysgol De Cymru yn cadw'r hawl i adfer unrhyw gostau gennych a ddaw i'w rhan o ganlyniad i'ch trosedd.

Rhaid ichi roi gwybod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth os dewch yn ymwybodol o unrhyw achos o dorri'r rheoliadau hyn.



## 4. Canllawiau

Mae'r canllaw hwn yn ymhelaethu ar yr egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau craidd. Mae'n rhoi nifer o enghreifftiau o sefyllfaoedd penodol a'r bwriad yw eich helpu i wneud cysylltiad rhwng eich defnydd chi o'r cyfleusterau technoleg gwybodaeth o ddydd i ddydd a'r *hyn y dylech ac na ddylech ei wneud* yn ôl y rheoliadau craidd.

Pan roddir rhestr o enghreifftiau dim ond rhai o'r achosion mwyaf cyffredin ydynt, ac nid bwriad y rhestr yw bod yn holl-gynhwysol.

Pan fo termau tebyg i Awdurdod, Awdurdodedig, Cymeradwy neu Gymeradwyaeth yn ymddangos, maent yn cyfeirio at awdurdod neu gymeradwyaeth gan unigolyn neu gorff a nodwyd yn *adran 3, Awdurdod* neu unrhyw un y mae'r unigolyn neu'r corff hwnnw wedi dirprwyo'r awdurdod iddynt.

### 1. Cwmpas

#### 1.1. Defnyddwyr

Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i **unrhyw un** sy'n defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth Prifysgol De Cymru. Mae hyn yn cynnwys mwy na dim ond myfyrwyr a staff. Er enghraifft, gall gynnwys:

- Ymwelwyr â gwefan Prifysgol De Cymru a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein y sefydliad oddi ar y campws;
- Partneriaid, contractwyr ac asiantaethau allanol sydd wedi'u lleoli ar y safle ac sy'n defnyddio rhwydwaith Prifysgol De Cymru, neu oddi ar y safle ac sy'n defnyddio systemau'r sefydliad;
- Tenantiaid y sefydliad sy'n defnyddio cyfrifiaduron, gweinyddion neu rwydwaith y Brifysgol;
- Ymwelwyr sy'n defnyddio cysylltiad Di-Wifr y sefydliad;
- Myfyrwyr a staff o sefydliadau eraill sy'n mewngofnodi drwy ddefnyddio eduroam.

#### 1.2. Cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth

Mae'r term Cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth yn cynnwys:

- Caledwedd technoleg gwybodaeth mae Prifysgol De Cymru yn ei darparu fel cyfrifiaduron personol, gliniaduron, ffonau clyfar ac argraffwyr;
- Meddalwedd mae Prifysgol De Cymru yn ei darparu fel systemau gweithredu, meddalwedd rhaglenni swyddfa, porwyr gwe ac ati. Mae hefyd yn cynnwys meddalwedd mae'r sefydliad wedi trefnu bod gennych ddefnydd ohoni, er enghraifft bargeinion arbennig i fyfyrwyr ar gyfer pecynnau rhaglenni masnachol;
- Data mae Prifysgol De Cymru yn ei ddarparu, neu'n trefnu mynediad ato. Gallai hyn gynnwys cylchgronau ar-lein, setiau data neu gronfeydd data dyfyniadau;
- Mynediad at y rhwydwaith a ddarparwyd neu a drefnwyd gan Brifysgol De Cymru. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, cysylltiadau â'r rhwydwaith mewn neuaddau preswyl, cysylltiad Di-Wifr ar y campws, cysylltu â'r rhyngwyd o gyfrifiadur y Brifysgol.
- Gwasanaethau ar-lein sy'n cael eu trefnu gan y sefydliad neu unrhyw rai o adnoddau Jisc ar-lein.
- *Manylion adnabod technoleg gwybodaeth*, er enghraifft defnyddio manylion mewngofnodi Prifysgol De Cymru, neu unrhyw docyn arall (cyfeiriad e-bost, cerdyn clyfar, dongl) a

roddwyd gan Brifysgol De Cymru er mwyn ichi allu dangos pwy ydych chi wrth ddefnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth. Er enghraifft, efallai y gallwch ddefnyddio cyfleusterau galw hebio neu gysylltiad Di-Wifr mewn sefydliadau eraill gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair arferol drwy'r system eduroam. Drwy wneud hynny, rydych yn ddarostyngedig i'r rheoliadau hyn, yn ogystal â rheoliadau'r sefydliad rydych yn ymweld ag ef.

## 2. Llywodraethu

Mae'n bwysig cofio bod canlyniadau yn y byd go iawn o ddefnyddio technoleg gwybodaeth.

Caiff eich defnydd o dechnoleg gwybodaeth ei lywodraethu gan ddeddfau a rheoliadau technoleg gwybodaeth penodol (fel y rhain), ond mae hefyd yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau cyffredinol fel polisiau cyffredinol eich sefydliad.

### 2.1. Cyfraith Ddomestig

Mae cyfraith gwlad yn berthnasol i'ch ymddygiad, gan gynnwys deddfau nad ydynt yn amlwg yn gysylltiedig â thechnoleg gwybodaeth er enghraifft deddfau am dwyll, dwyn ac aflonyddu.

Mae sawl deddf sy'n benodol o berthnasol i ddefnyddio technoleg gwybodaeth, gan gynnwys:

- Deddf Cyhoeddiadau Anwedus [1959](#) a [1964](#)
- [Deddf Amddiffyn Plant 1978](#)
- [Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984](#)
- [Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988](#)
- [Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008](#)
- [Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990](#)
- [Deddf Hawliau Dynol 1998](#)
- [Deddf Diogelu Data 1998](#)
- [Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000](#)
- [Deddf Atal Terfysgaeth 2005](#)
- [Deddf Terfysgaeth 2006](#)
- [Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015](#)
- [Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006](#)
- [Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#)
- [Deddf Rhyddid Gwybodaeth \(yr Alban\) 2002](#)
- [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)
- [Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig \(Cyfarwyddeb y GE\) 2003](#) (fel y'u diwygiwyd)
- Deddf Difenwad [1996](#) a [2013](#)

Felly, er enghraifft, chewch chi ddim:

- Creu na throsglwyddo, na pheri trosglwyddo, unrhyw ddelweddau, data neu ddeunydd arall tramgwyddus neu anwedus, neu unrhyw ddata y gellir ei ddadelfennu'n ddelweddau neu'n ddeunydd anwedus;
- Creu na throsglwyddo deunydd gyda'r bwriad o achosi poendod, anghyfleustra neu bryder diangen;

- Creu na throsglwyddo deunydd gyda'r bwriad o dwyllo;
- Creu na throsglwyddo deunydd difenwol;
- Creu na throsglwyddo deunydd mewn modd sy'n torri hawlfraint unigolyn neu sefydliad arall;
- Creu na throsglwyddo deunydd torfol neu farchnata digymell i ddefnyddwyr cyfleusterau neu wasanaethau ar y rhwydwaith, ac eithrio pan fo'r deunydd wedi'i ymgorffori mewn gwasanaeth, neu fel arall yn rhan o wasanaeth, y mae'r defnyddiwr neu sefydliad y defnyddiwr wedi dewis tanystrifio iddo;
- Mynnu mynediad bwriadol (heb awdurdod) i gyfleusterau neu wasanaethau ar rwydwaith.

Mae trosolwg o ddeddfau'n ymwneud â defnyddio technoleg gwybodaeth ar gael yn [www.jisclegal.ac.uk/LegalAreas](http://www.jisclegal.ac.uk/LegalAreas)

## 2.2 Cyfraith Dramor

Os ydych yn defnyddio gwasanaethau sy'n cael eu cynnal mewn rhan wahanol o'r byd, gallech fod yn ddarostyngedig i'w deddfau nhw hefyd. Gall fod yn anodd gwybod lle mae gwasanaeth penodol yn cael ei gynnal, a beth yw'r deddfau perthnasol yn yr ardal honno.

Yn gyffredinol, os defnyddiwrch synnwyr cyffredin, ufuddhau i gyfraith ddomestig a rheoliadau'r gwasanaeth rydych yn ei ddefnyddio, fe ddylech fod yn iawn.

## 2.3 Rheoliadau Cyffredinol y Sefydliad

Dylech eisoes fod yn gyfarwydd â rheoliadau a pholisïau cyffredinol Prifysgol De Cymru. Gellir gweld rheoliadau ychwanegol yn <http://its.southwales.ac.uk/it-regulations>

Gall myfyrwyr weld y rhain drwy fynd i <http://unilife.southwales.ac.uk/pages/3026-regulations-and-procedures>. Dylai staff fynd i <http://hr.southwales.ac.uk>.

## 2.4 Rheoliadau Trydydd Parti

Os byddwch yn defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth Prifysgol De Cymru i gyrchu gwasanaethau neu adnoddau trydydd parti, byddwch yn ddarostyngedig i'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth neu'r adnodd hwnnw. (Gall y cysylltiad hwnnw fod mor syml â defnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair eich sefydliad).

Yn aml iawn, bydd y rheoliadau hyn yn cael eu cyflwyno ichi y tro cyntaf y byddwch yn defnyddio'r gwasanaeth, ond mewn rhai achosion gall y gwasanaeth fod mor dreiddiol na fyddwch yn ymwybodol hyd yn oed eich bod yn ei ddefnyddio.

Dwy enghraifft lle gall hyn ddigwydd yw:

- **Defnyddio Janet, y rhwydwaith sy'n cysylltu pob sefydliad ymchwil ac addysg uwch yng ngwledydd Prydain gyda'i gilydd a gyda'r rhyngryd**

Drwy gysylltu ag unrhyw safle y tu allan i Brifysgol De Cymru byddwch yn defnyddio Janet, ac yn ddarostyngedig i bolisi defnydd derbynol Janet, <https://community.ja.net/library/acceptable-use-policy>, polisi diogelwch Janet, <https://community.ja.net/library/janet-policies/security-policy> a pholisi cymhwysedd Janet, <https://community.ja.net/library/janet-policies/eligibility-policy>.

Mae gofynion y polisiau hyn wedi'u cynnwys yn y rheoliadau hyn, felly os byddwch yn cadw at y rheoliadau, ni ddylech fod yn torri polisiau Janet.

- **Defnyddio Cytundebau CHEST**

Mae Eduserv yn sefydliad sydd wedi trefnu llawer o fargeinion am feddalwedd ac adnoddau ar-lein ar ran cymuned addysg uwch Prydain, sy'n cael eu galw'n *gytundebau CHEST*.

Mae gan y cytundebau hyn gyfyngiadau penodol ynghlwm â nhw a gellir eu crynhoi fel hyn: ni chaniateir defnydd nad yw'n academiaidd; rhaid parchu hawlfraint; rhaid ichi beidio â phasio breintiau a roddwyd o dan *gytundebau CHEST* ymlaen i drydydd parti; a rhaid i ddefnyddwyr dderbyn Cydnabyddiaeth y Defnyddiwr o Hawliau Trydydd Parti, sydd ar gael yn [www.eduserv.org.uk/services/Chest-Agreements/about-our-licences/user-obligations](http://www.eduserv.org.uk/services/Chest-Agreements/about-our-licences/user-obligations).

Bydd achosion eraill lle mae Prifysgol De Cymru wedi darparu darn o feddalwedd neu adnodd i chi.

- Cytundebau trwydded – Dim ond meddalwedd ac adnoddau eraill sy'n cydymffurfio â'r holl drwyddedau, telerau ac amodau perthnasol y caiff defnyddwyr eu defnyddio.

### 3. Awdurdod

Cyhoeddir y rheoliadau hyn o dan awdurdod Is-Grŵp TGCh Bwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor (VCEB) ([Is-Grŵp TGCh VCEB](#)) sydd hefyd yn gyfrifol am eu dehongli a'u gorfodi, ac sydd â'r pŵer i ddirprwyo awdurdod o'r fath i bobl eraill.

Rhoddir awdurdod i ddefnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth y sefydliad mewn sawl ffordd:

- Drwy roi enw defnyddiwr a chyfrinair neu *fanylion adnabod technoleg gwybodaeth* eraill
- Drwy roi caniatâd penodol i gyrchu system neu adnodd penodol
- Drwy ddarparu cyfleuster mewn sefyllfa *mynediad agored* amlwg, fel gwefan sefydliadol; ciosg hunan-wasanaeth mewn man cyhoeddus; neu rwydwaith Di-Wifr agored ar y campws.

Os oes unrhyw ansicrwydd a oes gennych awdurdod i ddefnyddio unrhyw gyfleuster technoleg gwybodaeth, dylech ofyn am ragor o gyngor gan Wasanaethau Cymorth Technoleg Gwybodaeth y Brifysgol [itsupport@decymru.ac.uk](mailto:itsupport@decymru.ac.uk).

Mae ceisio defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth heb ganiatâd yr awdurdod perthnasol yn drosedd o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron.

### 4. Defnydd a Fwriedir

Mae cyfleusterau technoleg gwybodaeth Prifysgol De Cymru, a rhwydwaith Janet sy'n cysylltu'r sefydliadau gyda'i gilydd a gyda'r rhyngwyd, yn cael eu hariannu gan y cyhoedd drwy drethi. Mae ganddynt hawl i wybod bod y cyfleusterau'n cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd.

#### 4.1 Defnydd at Ddibenion Hyrwyddo Cenhadaeth y Sefydliad

Darperir y cyfleusterau technoleg gwybodaeth i'w defnyddio i hyrwyddo cenhadaeth Prifysgol De Cymru. Gall y defnydd hwn gynnwys dysgu, addysgu, ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth, allgymorth cyhoeddus, gweithgareddau masnachol y sefydliad neu waith gweinyddol i gefnogi'r uchod.

#### **4.2 Defnydd Personol**

Ar hyn o bryd, cewch ddefnyddio'r cyfleusterau technoleg gwybodaeth at ddefnydd personol ar yr amod nad yw hynny'n torri'r rheoliadau nac yn atal neu'n amharu ar ddefnydd pobl eraill o'r cyfleusterau at ddibenion dilys (er enghraifft defnyddio cyfrifiadur i ddiweddarau eich tudalen Facebook pan fo pobl eraill yn aros i gwblhau gwaith).

Fodd bynnag, baint yw hyn a gellir ei thynnu yn ôl ar unrhyw adeg.

Mae gweithwyr sy'n defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith yn ystod eu horiau gwaith yn ddarostyngedig i'r un polisiau rheoli ac unrhyw fath arall o weithgaredd nad yw'n gysylltiedig â'u gwaith.

#### **4.3. Defnydd Masnachol ac Elwa'n Personol**

Rhaid cael cymeradwyaeth benodol gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth os bwriedir defnyddio'r cyfleusterau technoleg gwybodaeth i elwa'n personol neu at ddefnydd masnachol nad yw'n ymwneud â'r sefydliad, er enghraifft rhedeg clwb neu sefydliad. Mae'n bosibl y bydd darparwr y gwasanaeth yn gofyn am dâl neu gyfran o'r incwm am y math hwn o ddefnydd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth.

Hyd yn oed gyda chymeradwyaeth o'r fath, mae defnyddio trwyddedau o dan gytundebau CHEST at ddibenion ac eithrio addysgu, astudio neu ymchwil, gweinyddu neu reoli wedi'i wahardd, ac mae'n rhaid i chi sicrhau bod trwyddedau sy'n caniatáu defnydd masnachol yn eu lle.

### **5. Hunaniaeth**

Mae nifer o wasanaethau technoleg gwybodaeth a ddarperir neu a drefnwyd gan Brifysgol De Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddangos pwy ydych chi pan fyddwch yn eu defnyddio fel bod y gwasanaeth yn *gwybod* bod hawl gennych i'w ddefnyddio.

Y ffordd fwyaf cyffredin o wneud hyn yw rhoi enw defnyddiwr a chyfrinair i chi, ond gellir defnyddio ffurfiau eraill o *fanylion adnabod technoleg gwybodaeth*, er enghraifft cyfeiriad e-bost, cerdyn clyfar neu ddyfais ddiogelwch arall.

#### **5.1 Diogelu eich Hunaniaeth**

Rhaid ichi gymryd pob rhagofal rhesymol i ddiogelu unrhyw *fanylion adnabod technoleg gwybodaeth* a roddwyd i chi.

Rhaid ichi newid eich cyfrinair y tro cyntaf ichi gael un ac yn rheolaidd wedi hynny yn ôl cyfarwyddyd. Peidiwch â defnyddio cyfrineiriau amlwg, a pheidiwch â'u cofnodi yn unman lle mae rhywun arall yn debygol o'u gweld. Peidiwch â defnyddio'r un cyfrinair sydd gennych ar gyfrif personol arall (cyfrif nad yw'n ymwneud â'r sefydliad). Peidiwch â rhannu cyfrineiriau gydag unrhyw un arall, gan gynnwys aelodau o staff Technoleg Gwybodaeth, waeth pa mor hwylus a diniwed y gall ymddangos.

Os credwch fod rhywun arall yn gwybod eich cyfrinair, dylech ei newid ar unwaith a rhoi gwybod am y mater i Wasanaethau Cymorth Technoleg Gwybodaeth y Brifysgol [itsupport@decymru.ac.uk](mailto:itsupport@decymru.ac.uk).

Peidiwch â defnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair i fewngofnodi i wefannau neu wasanaethau sy'n anghyfarwydd ichi, a pheidiwch â mewngofnodi i wefannau sydd heb symbol clo arnynt.

Pan fyddwch wedi mewngofnodi, peidiwch â gadael eich cyfrifiadur, ac allgofnodwch yn iawn ar ôl i chi orffen.

Peidiwch â gadael i unrhyw un arall ddefnyddio eich cerdyn clyfar neu'ch caledwedd diogelwch. Gofalwch amdanynt ac os byddwch yn eu colli, dylech roi gwybod am y mater i'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn syth.

## 5.2 Dynwared

Peidiwch byth â defnyddio *manyion adnabod technoleg gwybodaeth* rhywun arall, na cheisio cuddio eich hunaniaeth go iawn wrth ddefnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth y sefydliad.

Fodd bynnag, mae'n dderbyniol cuddio eich hunaniaeth os yw'r system neu'r gwasanaeth yn caniatáu defnydd anhysbys (er enghraifft gwefan i'r cyhoedd).

## 5.3 Ymgais i Beryglu Hunaniaeth Pobl Eraill

Rhaid ichi beidio â cheisio camfeddiannu, benthyg, llygru na difetha *manyion adnabod technoleg gwybodaeth* rhywun arall.

## 6. Seilwaith

Y seilwaith technoleg gwybodaeth yw'r holl *system* sy'n gwneud i dechnoleg gwybodaeth weithio. Mae'n cynnwys gweinyddion, y rhwydwaith, cyfrifiaduron, argraffwyr, systemau gweithredu, cronfeydd data a meddalwedd a chaledwedd arall sydd angen cael eu gosod yn gywir er mwyn sicrhau gwasanaethau technoleg gwybodaeth dibynadwy, effeithlon a diogel.

Rhaid ichi beidio â gwneud dim i beryglu'r seilwaith.

### 6.1 Difrodi neu Berygl o Ddifrodi

Peidiwch â difrodi na gwneud unrhyw beth a all beri difrod i'r seilwaith, er enghraifft bod yn esgeulus gyda bwyd neu ddiod wrth ymyl cyfrifiadur, neu chwarae pêl-droed mewn canolfan galw heibio.

### 6.2 Ailffurfweddu

Peidiwch â cheisio newid gosodiadau'r seilwaith heb awdurdod, er enghraifft newid y pwynt ar y rhwydwaith mae cyfrifiadur wedi'i gysylltu ag ef, cysylltu dyfeisiau i'r rhwydwaith (ac eithrio i rwydweithiau Di-Wifr neu Ether-rwyd sydd wedi'u darparu'n unswydd ar gyfer hyn) na newid ffurfweddiad cyfrifiaduron y sefydliad. Oni bai eich bod wedi eich awdurdodi i wneud hynny, ni ddylech ychwanegu na thynnu meddalwedd oddi ar gyfrifiaduron.

Peidiwch â symud offer heb awdurdod.

## 6.2 Ymestyn y Rhwydwaith

Rhaid ichi beidio ag ymestyn y rhwydwaith Di-Wifr na'r rhwydwaith ar wifr heb awdurdod. Gall gweithgareddau o'r fath, a allai gynnwys defnyddio llwybryddion, ailadroddwyr, bothau neu bwyntiau mynediad Di-Wifr, amharu ar y rhwydwaith ac mae'n debygol y byddai'n torri polisi diogelwch Janet.

## 6.4 Gosod Gweinyddion

Rhaid ichi beidio â gosod unrhyw galedwedd neu feddalwedd a fyddai'n darparu gwasanaeth i ddefnyddwyr eraill dros y rhwydwaith heb awdurdod. Enghreifftiau o hyn fyddai gweinyddion gemau, gwasanaethau rhannu ffeiliau, gweinyddion neu wefannau cyfnewid sgwsiau.

## 6.5 Cyflwyno Maleiswedd

Rhaid ichi gymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflwyno maleiswedd i'r seilwaith. Mae'r term maleiswedd yn cynnwys sawl peth fel firsau, mwydod ac 'ymwelwyr diwahoddiad', ond yn syml unrhyw feddalwedd a ddefnyddir i amharu ar weithrediad cyfrifiadur neu i danseilio diogelwch. Caiff ei rhannu gan amlaf drwy ymweld â gwefannau amheus, llwytho ffeiliau o ffynonellau anghymeradwy, agor atodiadau mewn e-byst gan bobl nad ydych yn eu hadnabod neu drwy fewnosod cyfryngau sydd wedi'u creu ar gyfrifiaduron sydd wedi'u peryglu.

Os byddwch yn osgoi'r mathau hyn o arferion, yn diweddarau eich meddalwedd gwrth-firws ac yn ei droi ymlaen, ac yn rhedeg sgan o'ch cyfrifiadur yn rheolaidd, dylech osgoi'r broblem.

## 6.6 Tanseilio Mesurau Diogelwch

Mae gan Brifysgol De Cymru fesurau ar waith i sicrhau diogelwch ei seilwaith technoleg gwybodaeth, gan gynnwys defnyddio meddalwedd gwrth-firws, muriau cadarn, hidlyddion sbam ac ati. Rhaid ichi beidio â cheisio tanseilio na threchu'r mesurau hyn mewn unrhyw ffordd.

# 7 Gwybodaeth

## 7.1 Gwybodaeth Bersonol, Sensitif a Chyfrinachol

Fel rhan o'u gwaith neu eu hastudiaethau, gall staff a myfyrwyr (yn enwedig myfyrwyr ymchwil) fod yn trin gwybodaeth sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Diogelu Data 1998, neu wybodaeth sy'n sensitif neu'n gyfrinachol mewn modd arall. Yng ngweddill yr adran hon, cyfeirir at y mathau hyn o wybodaeth fel gwybodaeth i'w diogelu.

Mae gwarchod diogelwch gwybodaeth i'w diogelu yn fater cymhleth iawn, sydd ag agweddau sefydliadol, technegol a dynol. Mae gan y sefydliad bolisiau am Reoli Gwybodaeth a Diogelu Data <http://uso.southwales.ac.uk>, ac os yw'n debygol y byddwch chi'n trin gwybodaeth i'w diogelu fel rhan o'ch rôl, rhaid ichi ymgyfarwyddo â'r bolisiau a chadw atynt.

Ceir rhagor o ganllawiau am ddarpariaethau [Deddf Diogelu Data 1998](http://uso.southwales.ac.uk/ig/dp) a sut mae Prifysgol De Cymru yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddf yn <http://uso.southwales.ac.uk/ig/dp>.

### **7.1.1 Trosglwyddo Gwybodaeth i'w Diogelu**

Pan fyddwch yn anfon gwybodaeth i'w diogelu yn electronig, rhaid ichi ddefnyddio dull sydd â diogelwch briodol. Nid yw e-bost o reidrwydd yn ddiogel. Mae cyngor ynghylch sut i anfon gwybodaeth i'w diogelu yn electronig ar gael gan Wasanaethau Cymorth Technoleg Gwybodaeth y Brifysgol [itsupport@decymru.ac.uk](mailto:itsupport@decymru.ac.uk).

### **7.1.2 Cyfryngau mae Modd eu Tynnu a Dyfeisiau Symudol**

Rhaid peidio â storio gwybodaeth i'w diogelu ar gyfryngau mae modd eu tynnu (er enghraifft 'cof bach' neu ddyfeisiau storio USB, disgiau caled mae modd eu tynnu, CDau a DVDau) na dyfeisiau symudol (gliniaduron, tabledi a ffonau clyfar) oni bai eu bod wedi'u hamgryptio a'u bod yn cael eu cadw'n ddiogel.

Os caiff gwybodaeth i'w diogelu ei hanfon ar gyfryngau mae modd eu tynnu, rhaid ichi ddefnyddio gwasanaeth diogel, sy'n cael ei dracio, fel eich bod yn gwybod ei fod wedi cyrraedd yn ddiogel. Mae cyngor ynghylch defnyddio cyfryngau mae modd eu tynnu a dyfeisiau symudol gyda gwybodaeth i'w diogelu ar gael gan Wasanaethau Cymorth Technoleg Gwybodaeth y Brifysgol [itsupport@decymru.ac.uk](mailto:itsupport@decymru.ac.uk).

### **7.1.3 Gweithio o Bell**

Os ydych yn cyrchu gwybodaeth i'w diogelu oddi ar y campws, rhaid ichi sicrhau eich bod yn defnyddio dull o gysylltu sydd wedi'i gymeradwyo sy'n sicrhau na all y wybodaeth gael ei rhyng-gipio rhwng y ddyfais rydych chi'n ei defnyddio a ffynhonnell y gwasanaeth diogel.

Rhaid ichi hefyd fod yn ofalus rhag gweithio mewn mannau cyhoeddus lle gall pobl weld eich sgrin.

### **7.1.4 Dyfeisiau Personol neu Gyhoeddus a Gwasanaethau Cwmwl**

Hyd yn oed pan fyddwch yn defnyddio dulliau o gysylltu sydd wedi'u cymeradwyo, ni ellir gwarantu bod dyfeisiau nad ydynt yn cael eu rheoli'n llwyr gan Brifysgol De Cymru yn rhydd o feddalwedd maleisus a allai, er enghraifft, gasglu gwybodaeth mewnbynnu a'r hyn sy'n ymddangos ar sgriniau. Ni ddylech ddefnyddio dyfeisiau o'r fath i gyrchu, trosglwyddo na storio gwybodaeth i'w diogelu.

Mae cyngor ynghylch defnyddio dyfeisiau personol gyda gwasanaethau'r sefydliad ar gael gan Wasanaethau Cymorth Technoleg Gwybodaeth y Brifysgol [itsupport@decymru.ac.uk](mailto:itsupport@decymru.ac.uk).

Peidiwch â storio gwybodaeth i'w diogelu ar wasanaethau cwmwl personol fel Dropbox oni bai ei bod wedi'i hamgryptio'n gyntaf.

## **7.2 Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae bron pob darn o waith sydd wedi'i gyhoeddi wedi'i amddiffyn gan hawlfraint. Os ydych chi'n defnyddio deunydd (delweddau, testun, cerddoriaeth, meddalwedd), eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn ei ddefnyddio o fewn cyfraith hawlfraint. Mae hwn yn faes cymhleth, ac mae hyfforddiant a chanllawiau ar gael yn <http://uso.southwales.ac.uk/ig/ip>. Cofiwch: nid yw'r ffaith y gallwch weld rhywbeth ar y we, ei lwytho neu ei gyrchu yn golygu y cewch wneud beth fynnoch chi gyda'r deunydd.



### **7.3 Gwybodaeth am Eraill**

Rhaid ichi beidio â cheisio cyrchu, dileu, addasu, na datgelu gwybodaeth gyfyngedig sy'n eiddo i bobl eraill heb ganiatâd, oni bai ei bod yn amlwg mai dyma beth maen nhw'n bwriadu i bobl eraill ei wneud gyda'r wybodaeth, neu eich bod wedi cael cymeradwyaeth gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth; Swyddog Hawlfraint [rights@decymru.ac.uk](mailto:rights@decymru.ac.uk) neu Berchennog yr Hawlfraint.

Pan fo gwybodaeth yn cael ei chynhyrchu gan rywun a gyflogir gan Brifysgol De Cymru, ac nad yw'r person a'i cynhyrchodd neu sy'n ei rheoli ar gael, caiff y rheolwr llinell perthnasol roi caniatâd i adfer y wybodaeth at ddibenion gwaith. Mewn achosion o'r fath, rhaid gofalu nad oes unrhyw wybodaeth breifat yn cael ei hadfer yn y cyfrif, ac nad yw diogelwch y cyfrif o dan sylw yn cael ei gyfaddawdu.

Dim ond o dan amgylchiadau penodol iawn, yn unol â phrosesau sefydliadol a/neu gyfreithlon, y ceir cyrchu gwybodaeth breifat am rywun arall. Gall sefydliadau gyfeirio at dempled Jisc Legal <http://jiscleg.al/AccessITAccounts>.

### **7.4 Deunydd Amhriodol**

Rhaid ichi beidio â chreu, llwytho, storio na throsglwyddo deunydd anghyfreithlon na deunydd anwedus, tramgwyddus, difenwol, ymosodol neu wahaniaethol.

Mae dyletswydd ar awdurdodau (gan gynnwys AU) o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. O dan y ddyletswydd hon, bydd y Brifysgol yn rhwystro a monitro mynediad i wefannau sy'n cario deunyddiau amhriodol.

<https://www.gov.uk/government/publications/prevent-duty-guidance>

Mae Universities UK wedi cynhyrchu canllawiau ynghylch trin deunydd ymchwil sensitif, sydd ar gael yn <http://www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Pages/OversightOfSecuritySensitiveResearchMaterial.aspx>.

Mae eithriadau hefyd i staff technoleg gwybodaeth awdurdodedig sy'n ceisio diogelu tystiolaeth at ddibenion ymchwilio i dorcyfraith neu dorri'r rheoliadau.

### **7.5 Cyhoeddi Gwybodaeth**

Mae cyhoeddi yn golygu'r weithred o ryddhau gwybodaeth i'r cyhoedd, mae hyn yn cynnwys drwy wefannau, rhwydweithiau cymdeithasol a ffrydiau newyddion. Yn gyffredinol, mae Prifysgol De Cymru yn annog cyhoeddi, ond mae rhai canllawiau cyffredinol y dylech gadw atynt:

#### **7.5.1 Cynrychioli'r Sefydliad**

Rhaid ichi beidio â gwneud datganiadau sy'n honni eu bod yn cynrychioli Prifysgol De Cymru heb gymeradwyaeth gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth.

### **7.5.2 Cyhoeddi ar ran Eraill**

Rhaid ichi beidio â chyhoeddi gwybodaeth ar ran trydydd parti gan ddefnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth y sefydliad heb gymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr Recriwtio a Materion Allanol.

## **8 Ymddygiad**

Wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth, dylech ymddwyn yn yr un modd ag y byddech yn ymddwyn o dan unrhyw amgylchiadau eraill. Mae ymddygiad ymosodol, anystyriol neu wahaniaethol yn annerbyniol.

### **8.1 Ymddygiad ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol**

Mae polisiau Prifysgol De Cymru i staff a myfyrwyr hefyd yn berthnasol i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys polisiau adnoddau dynol, codau ymddygiad, defnydd derbyniol o dechnoleg gwybodaeth a gweithdrefnau disgyblu.

Gallwch weld polisi cyfryngau cymdeithasol Prifysgol De Cymru drwy fynd i:

<http://its.southwales.ac.uk/documents/download/6/>.

### **8.2 Sbam**

Rhaid ichi beidio ag anfon negeseuon e-bost torfol digymell nac e-byst cadwyn ac eithrio mewn amgylchiadau penodol.

I gael cyngor pellach, cysylltwch â Gwasanaethau Cymorth Technoleg Gwybodaeth y Brifysgol [itsupport@decymru.ac.uk](mailto:itsupport@decymru.ac.uk).

### **8.3 Atal Defnyddwyr Eraill**

Os ydych chi'n defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth a rennir at ddibenion personol neu gymdeithasol, dylech eu gadael os oes eu hangen ar ddefnyddwyr eraill sydd â gwaith i'w wneud. Yn yr un modd, peidiwch â meddiannu cyfleusterau arbenigol yn ddiangen os oes eu hangen ar rywun arall.

### **8.4 Amharu ar Eraill**

Pan fyddwch yn defnyddio ardaloedd a rennir, cofiwch fod hawl gan eraill i weithio heb aflonyddwch. Byddwch yn dawel (newidiwch osodiadau eich ffôn i 'tawel' os ydych mewn ardal astudio tawel), peidiwch â rhwystro llwybrau tramwy a byddwch yn ystyrlon o bobl o'ch cwmpas.

### **8.5 Defnydd Gormodol o Led Band / Adnoddau**

Defnyddiwch adnoddau'n ddoeth. Peidiwch â gorddefnyddio lled band drwy lwytho mwy o ddeunydd (yn enwedig fideo) nag sydd ei angen. Peidiwch â gwastraffu papur drwy argraffu mwy nag sydd ei angen, neu drwy argraffu ar un ochr pan fydd argraffu ar ddwy ochr yn dderbyniol. Peidiwch â gwastraffu trydan drwy adael offer ymlaen yn ddiangen.

## 9 Monitro

### 9.1 Monitro Sefydliadol

Mae Prifysgol De Cymru yn monitro ac yn cadw log o'r defnydd o'i chyfleusterau technoleg gwybodaeth at ddefnydd:

- Canfod, ymchwilio neu atal camddefnydd o'r cyfleusterau neu dorri rheoliadau'r Brifysgol;
- Monitro gweithrediad effeithiol y cyfleuster.
- Ymchwilio i gamymddygiad honedig;

Bydd Prifysgol De Cymru yn cydymffurfio ag ymholiadau cyfreithlon am wybodaeth gan asiantaethau'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith at ddibenion canfod, ymchwilio neu atal trosedd, a sicrhau diogelwch gwladol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Llywodraethu Gwybodaeth Prifysgol De Cymru: [freedomofinformation@decymru.ac.uk](mailto:freedomofinformation@decymru.ac.uk) / [dataprotection@decymru.ac.uk](mailto:dataprotection@decymru.ac.uk).

### 9.2 Monitro heb Awdurdod

Rhaid ichi beidio â cheisio monitro defnydd o dechnoleg gwybodaeth heb ganiatâd penodol gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth.

Byddai hyn yn cynnwys:

- Monitro traffig y rhwydwaith;
- Canfod rhwydwaith a/neu ddyfais;
- Casglu traffig Di-Wifr;
- Gosod meddalwedd logio bysellau neu gipio sgrin a allai effeithio ar ddefnyddwyr ar wahân i chi;
- Ceisio cael mynediad at logiau systemau neu weinyddion neu offer rhwydwaith.

Os mai technoleg gwybodaeth fydd pwnc eich astudiaeth neu'ch ymchwil, bydd trefniadau arbennig wedi cael eu gwneud a dylech gysylltu ag arweinydd eich cwrs / goruchwyliwr ymchwil i gael rhagor o wybodaeth.

## 10 Torri'r Rheoliadau

### 10.1 Proses Ddisgyblu a Sanctiynau

Prosesau disgyblu Prifysgol De Cymru fydd yn cael eu defnyddio pan fydd y rheoliadau hyn yn cael eu torri.

Gallai hyn effeithio ar eich astudiaethau yn y dyfodol, eich cyflogaeth gyda'r sefydliad a'r tu hwnt. Gellir gosod sanctiynau os daw'r broses ddisgyblu i'r casgliad eich bod wedi torri'r rheoliadau, er enghraifft, cyfyngu ar eich defnydd o gyfleusterau technoleg gwybodaeth; tynnu gwasanaethau; tynnu deunydd sy'n torri'r rheolau; dirwyon ac adfer unrhyw gostau a ddaeth i Brifysgol De Cymru o ganlyniad i'r torri rheolau.

## **10.2 Adrodd i Awdurdodau Eraill**

Os bydd y sefydliad yn credu bod gweithgaredd anghyfreithlon wedi digwydd, bydd yn cyfeirio'r mater i'r heddlu neu i asiantaeth orfodi arall.

## **10.3 Adrodd i Sefydliadau Eraill**

Os bydd y sefydliad yn credu bod rheoliadau trydydd parti wedi cael eu torri, gall gyfeirio'r mater i'r sefydliad hwnnw.

## **10.4 Adrodd am Dorri'r Rheoliadau**

Rhaid ichi roi gwybod i'r awdurdodau perthnasol os dewch yn ymwybodol o unrhyw achos o dorri'r rheoliadau hyn.